Ymgynghoriad ar Bolisi'r CPS ar gyfer erlyn achosion o fasnachu mewn pobl

Crynodeb o'r ymatebion

Mai 2011

Ymgynghoriad ar Bolisi'r CPS ar gyfer erlyn achosion o fasnachu mewn pobl – Crynodeb o'r ymatebion

Ymateb i ymgynghoriad a gynhaliwyd gan Wasanaeth Erlyn y Goron. Mae'r wybodaeth hon ar gael hefyd ar wefan y CPS yn

www.cps.gov.uk

Mai 2011

Cynnwys

Cyflwyniad	**3**
Cefndir	**4**
Crynodeb o'r Ymatebion	**4**
Ymatebion i Gwestiynau Penodol	**6**
Casgliad	**22**
Meini prawf ymgynghori	**23**
Atodiad A	**24**

Cyflwyniad

Crynodeb yw hwn o'r ymatebion i: 'Ymgynghoriad ar Bolisi'r CPS ar gyfer erlyn achosion o fasnachu mewn pobl'.

Mae'n nodi:

- cefndir yr ymgynghoriad;
- crynodeb o'r ymatebion;
- crynodeb o'r ymatebion i'r cwestiynau penodol; ac
- ein casgliadau.

Gellir cael rhagor o gopïau o'r crynodeb o'r ymatebion trwy gysylltu â:

Human Trafficking Consultation
CPS Policy Directorate
Rose Court
2 Southwark Bridge Road
London SE1 9HS

Gellir eu cael hefyd trwy e-bost gan:

cpsconsultation@cps.gsi.gov.uk

Mae copïau ar gael hefyd ar wefan y CPS – www.cps.gov.uk

Cefndir

Ym mis Gorffennaf 2010, fe lansiodd Gwasanaeth Erlyn y Goron (CPS) ymgynghoriad cyhoeddus ar ei Ddatganiad Polisi Cyhoeddus ar erlyn achosion masnachu mewn pobl. Nod yr ymgynghoriad oedd cael ystod eang o farnau ar y ffordd y mae'r CPS yn ymdrin ag achosion sy'n ymwneud â dioddefwyr troseddau masnachu mewn pobl i fod yn sail i bolisi ac arferion y CPS wrth erlyn achosion masnachu mewn pobl.

Mae gan y CPS gyfrifoldeb am adolygu achosion masnachu mewn pobl a gweithredu'r Cod ar gyfer Erlynwyr y Goron i benderfynu a ddylid erlyn. Er mwyn cynorthwyo erlynwyr wrth iddynt wneud y penderfyniad hwnnw, fe wnaethom adolygu ein polisi a'n harferion trwy ymgynghori yn gyhoeddus ac yn fewnol. Bydd y Datganiad Polisi Cyhoeddus yn ffynhonnell i gyfeirio ati ar gyfer erlynwyr, yn ogystal â rhoi cyngor i rai eraill ar yr hyn y mae'r CPS yn ei wneud, sut y mae achosion masnachu mewn pobl yn cael eu herlyn, a beth all dioddefwyr ei ddisgwyl gan y CPS a'r asiantaethau yr ydym yn gweithio gyda nhw. Anelwyd y datganiad polisi yn arbennig at y rhai sy'n cefnogi dioddefwyr masnachu mewn pobl, boed yn broffesiynol neu yn bersonol, er y gall fod o ddiddordeb hefyd i ddioddefwyr, tystion a'r cyhoedd yn gyffredinol.

Bydd fersiwn ddiwygiedig o'r ddogfen oedd yn destun yr ymgynghoriad yn dod yn Ddatganiad Polisi Cyhoeddus ar erlyn achosion masnachu mewn pobl. Cyhoeddir y datganiad polisi ochr yn ochr â'r crynodeb o ymatebion hwn.

Yn rhan o'r ymgynghoriad cyhoeddus, gofynnwyd i'r ymatebwyr ateb chwe chwestiwn penodol a rhoi unrhyw sylwadau neu farn ychwanegol ar ddiwedd eu hymateb. Daeth y cyfnod ymgynghori i ben ar 31 Hydref 2010; er i ni dderbyn nifer o ymatebion ar ôl y dyddiad hwnnw. fe roddwyd ystyriaeth lawn iddynt. Mae'r holl atebion wedi cael eu cynnwys yn y crynodeb o ymatebion. Gellir gweld rhestr o'r ymatebwyr yn Atodiad A.

Crynodeb o ymatebion

Derbyniwyd cyfanswm o 41 ymateb gan 42 o ymatebwyr. Cyflwynodd dau gorff ymateb ar y cyd sydd wedi ei alw yn un ymateb ar gyfer dibenion y crynodeb hwn. Rhannwyd yr ymatebwyr i'r tri chategori canlynol:

- ymatebion gan unigolion;
- ymatebion gan sefydliadau; ac
- ymatebion gan asiantaethau cyfiawnder troseddol.

Darlunnir manylion y tri chategori o ymatebwyr yn Nhabl 1 isod.

Tabl 1: Tabl math o ymatebwyr

Crynodeb o'r Ymatebwyr		
Categori'r Ymatebwyr	**Nifer**	**Canran o'r Cyfanswm**
Ymatebwyr Unigol	1	2
Sefydliadau	31	74
Asiantaethau Cyfiawnder Troseddol	10	24
Cyfanswm	42	100%

Ni wnaeth pob ymatebwr roi atebion penodol i bob cwestiwn unigol yn yr ymgynghoriad. Mae Tabl 2 isod yn dangos cyfanswm yr ymatebion i bob cwestiwn a'r ganran sy'n cynrychioli cyfanswm yr ymatebwyr, beth bynnag oedd eu categori.

Tabl 2: Tabl o ymatebion i gwestiynau unigol fel canran o gyfanswm yr ymatebwyr

Ymatebion i gwestiynau unigol fel canran o'r holl ymatebwyr		
Cwestiwn	**Nifer o ymatebion a dderbyniwyd**	**Canran o gyfanswm yr ymatebwyr**
1	36	86
2	35	83
3	35	83
4	36	86
5	31	74
6	30	71
7	25	60

Adolygwyd pob ymateb unigol gan Gyfarwyddiaeth Strategaeth a Pholisi'r CPS. Nid yw'r ymatebwyr i gyd wedi dilyn y cwestiynau a roddwyd yn y ddogfen ymgynghorol ond mae barn yr ymatebwyr yn cael ei hadlewyrchu yn y tablau uchod a'r dadansoddiad manwl o'r ymatebion sy'n dilyn.

Ymatebion i gwestiynau penodol

CWESTIWN 1: A yw'r cyflwyniad yn esbonio'r rheswm dros y ddogfen yn glir ac yn dangos faint o bwys mae'r CPS yn ei roi ar daclo masnachu mewn pobl? Os nad yw, awgrymwch sut y gallem wneud hyn yn gliriach

Roedd 36 ymateb i'r cwestiwn hwn. O'r ymatebion hyn, roedd 19 yn meddwl bod nod y ddogfen wedi ei esbonio'n ddigonol. Ni wnaeth yr 17 ymateb arall fynegi unrhyw anghytundeb cryf â'r cyflwyniad ond fe wnaeth nifer ohonynt gynnig sylwadau adeiladol.

Cododd dau ymatebydd gwestiynau am ba mor ddarllenadwy oedd y cyflwyniad, gan awgrymu na fyddai rhai yn deall termau penodol. Teimlai un arall fod yr iaith yn rhy gryf yn emosiynol. Gofynnodd un ymatebydd a fydd y datganiad polisi ar gael mewn ieithoedd eraill.

Tanlinellodd pum ymatebydd bwysigrwydd adnabod dioddefwyr masnachu mewn pobl yn fuan, a'u diogelu a rhoi cefnogaeth a thriniaeth addas iddynt. Credai dau yn arbennig y dylai'r datganiad polisi gydnabod hyn fel y flaenoriaeth gyntaf yn yr achosion hyn, yn hytrach na rhoi'r pwyslais ar erlyn y drwgweithredwr. Teimlid bod hyn yn hanfodol wrth ymdrin â masnachu mewn pobl, cael cydweithrediad y dioddefwyr, a chynyddu'r gobaith o gael erlyniad llwyddiannus. Dylai'r trefniadau sydd wedi eu gwneud gael eu cyflwyno yn glir.

Teimlai saith o'r ymatebwyr y dylai'r cyflwyniad gydnabod yn glir nad yw masnachu mewn pobl yn gyfyngedig i un rhyw; mae'n cynnwys dynion a bechgyn hefyd. Awgrymodd un ymatebydd y dylid cyfeirio at ddynion a menywod yn hytrach nag "oedolion agored i niwed". Teimlai llawer hefyd y dylid tynnu'r cyfeiriad at y prosiect POPPY fel enghraifft o asiantaeth gefnogi, gan y gallai hyn ddynodi bod polisi'r CPS yn ymwneud yn bennaf â dioddefwyr masnachu mewn pobl sy'n fenywod y camfanteisiwyd arnynt yn rhywiol. Ond, fe wnaeth un ymatebydd ganmol y ddolen rhwng masnachu mewn pobl a Strategaeth Trais yn Erbyn Menywod y CPS.

Nododd tri o'r ymatebwyr mai dim ond un o nifer o ddibenion masnachu mewn pobl yw camfanteisio yn rhywiol, a rhoddodd dau ymatebydd gategorïau eraill o gamfanteisio y gall dioddefwyr eu dioddef. Tynnodd ymatebydd arall sylw at bwysigrwydd codi ymwybyddiaeth y cyhoedd, gan sicrhau bod dinasyddion yn deall y sefyllfaoedd amrywiol a all ddod o dan y diffiniad o fasnachu mewn pobl, y mathau o unigolion sy'n ymwneud â nhw ac effaith y troseddau hyn ar y dioddefwyr.

Nododd tri ymatebydd y byddai'r cyflwyniad yn cael ei gryfhau trwy gynnwys ystadegau i roi cyd-destun ac i ddangos graddfa masnachu mewn pobl o ran nifer y dioddefwyr a'r elw sy'n cael ei gynhyrchu. Byddai'n helpu hefyd i sicrhau bod dioddefwyr, tystion ac unrhyw un sy'n eu cefnogi yn cael yr wybodaeth i gyd. Meddyliai un ymatebydd y byddai'n helpu i reoli disgwyliadau'r unigolion hyn.

Awgrymodd un ymatebydd y dylid cynnwys gwybodaeth ynglŷn â pham mae dioddefwyr masnachu mewn pobl yn gyndyn o gyfaddef hynny.

Gofynnwyd am ragor o esboniad hefyd am fasnachu mewn pobl o fewn ffiniau'r Deyrnas Unedig a'r tu allan i'r Undeb Ewropeaidd. Roedd un ymatebydd am gael manylion yn benodol yng nghyswllt masnachu mewn plant Prydeinig ac roedd un arall am i'r datganiad gydnabod y gall pobl ifanc Prydeinig gael eu masnachu allan o'r Deyrnas Unedig. Roedd un arall yn ystyried y dylid pwysleisio'r angen am gydweithredu rhyngwladol a phwysigrwydd cydweithredu o fewn yr Undeb Ewropeaidd.

Gwnaeth pump o'r ymatebwyr sylwadau am fasnachu plant. Roeddent yn gofyn i'r cyflwyniad gydnabod y gwahaniaethau pendant pan fydd plant dan sylw ac y dylid cyfeirio atynt fel dioddefwyr arbennig o agored i niwed. Pwysleisiodd dau fod angen i'r datganiad gydnabod yn glir bod masnachu plant yn bennaf yn fater sy'n ymwneud ag amddiffyn plant. Dylid crybwyll cydsyniad yng nghyswllt plant hefyd yn fyr yn y cyflwyniad.

Roedd hefyd nifer o sylwadau am bwyntiau eraill i'w cynnwys yma. Roedd pedwar ymatebydd am i gyrff anllywodraethol (NGO) gael eu cynnwys yn yr ystod o asiantaethau y mae'r CPS yn gweithio gyda nhw. Awgrymodd un arall y dylai manylion cyswllt ar gyfer erlynwyr arbenigol gael eu cynnwys fel atodiad. Roedd dau ymatebydd am i atal gael sylw fel dull pwysig o darfu ar fasnachu mewn pobl, tra bod un arall yn nodi nad yw atafaelu a rhwystro wedi eu crybwyll. Yn olaf, roedd un ymatebydd am i'r cyflwyniad gyfeirio at bolisi'r CPS o ran erlyn dioddefwyr masnachu mewn pobl.

Credai un ymatebydd y dylai'r datganiad gydnabod y gwahaniaeth rhwng mudo gwirfoddol a masnachu i'r diwydiant rhyw.

Awgrymodd un arall y dylai'r ddogfen fod yn glir o ran pwysigrwydd hyfforddiant yr heddlu gyda'r bwriad o'u paratoi ar gyfer adnabod dioddefwyr masnachu mewn pobl.

Er bod llawer o'r ymatebwyr yn fodlon bod y datganiad yn darlunio ymrwymiad y CPS i fynd i'r afael â masnachu mewn pobl, awgrymodd un ymatebydd y gellid ei bwysleisio yn gryfach fel blaenoriaeth.

CWESTIWN 2: A yw'r disgrifiad o ddeddfwriaeth masnachu mewn pobl a smyglo wedi ei esbonio'n eglur?

Roedd 35 ymateb i'r cwestiwn hwn. Roedd 14 o'r rhain yn gadarnhaol, ond nid oedd pedwar yn ystyried bod y disgrifiadau o smyglo a/neu fasnachu mewn pobl yn ddigonol. Fe wnaeth nifer o'r ymatebwyr sylwadau ar agweddau oedd heb eu cynnwys ac awgrymu sut i wneud y disgrifiadau yn fwy cynhwysfawr.

Nododd 11 o'r ymatebwyr y dylid defnyddio'r diffiniad cyfreithiol o fasnachu mewn pobl yn 'Protocol Palermo' sy'n cael ei dderbyn yn rhyngwladol. Awgrymodd tri ymatebydd hefyd y byddai cyfeiriadau a hyperddolenni at ddeddfwriaeth ddomestig a rhyngwladol yn gwneud yr adran hon yn fwy cadarn, gan gynnwys a.71 o Ddeddf Crwneriaid a Chyfiawnder 2009. Gellid cyfeirio hefyd at ddyfarniadau allweddol dan y Confensiwn Hawliau Dynol Ewropeaidd (Rantsev v. Cyprus a Rwsia).

Roedd tri ymatebydd yn meddwl bod y disgrifiad o fasnachu mewn pobl fel tair elfen yn gamarweiniol ac yn awgrymu bod rhaid i'r pum elfen a restrir dan "Y ddeddf" i gyd fod yn bresennol i'r diffiniad gael ei fodloni. Nododd dau ymatebydd hefyd bod tarfu yn medru atal camfanteisio rhag digwydd ond, ar yr amod mai dyma yw bwriad y masnachwr mewn pobl, na fydd yn atal y drosedd o fasnachu mewn pobl. Roedd un ymatebydd yn amau a oedd dibyniaeth yn ddull, tra bod un arall am i dwyll gael ei gynnwys dan y paragraff agoriadol.

Roedd dau ymatebydd am gael eglurhad o ran y diffiniad o "caethiwed dyled".

Pwysleisiodd pum ymatebydd yr angen i ddatgan yn glir beth yw 'sefyllfa arbennig' plant sy'n cael eu masnachu, gan nodi nad oes angen "y modd" gan fod cydsyniad plentyn yn amherthnasol dan Brotocol Palermo. Roedd un arall am i'r datganiad egluro'n well y gwahaniaethau rhwng masnachu mewn pobl a masnachu mewn plant, gan nodi bod plant yn fwy agored i orfodaeth a thwyll. Nodwyd hefyd y gall plant gael eu cipio, eu gwerthu gan eu teuluoedd neu eu trosglwyddo gan eu rhieni gan gredu y byddant yn cael eu haddysgu.

Roedd dau ymatebydd yn bryderus y gallai'r rhestr o'r mathau o gamfanteisio ymddangos yn holl gynhwysol ac un arall bod y disgrifiadau o ymddygiad yn rhy gaeth. Cynghorodd pedwar hefyd y dylai gorfodaeth i briodi gael ei chynnwys yn y rhestr, gydag un ymatebydd yn nodi, os nad yw hyn yn cyfateb i fasnachu mewn pobl, y gellid cynnwys y Ddeddf Priodas Dan Orfodaeth dan yr adran gorchmynion ategol neu ychwanegol. Nodwyd hefyd fod y rhestr yn berthnasol i blant, sy'n cael eu masnachu yn gynyddol ar gyfer mentrau troseddol fel tyfu canabis a chardota, ond gall hynny gynnwys oedolion hefyd.

Roedd dau ymatebydd am i'r datganiad grybwyll y gall plant o Brydain ac o genhedloedd tramor fod yn agored i gael eu cam-drin a dioddef camfanteisio rhywiol.

Dylid crybwyll hefyd symud dioddefwyr rhwng gwestai a thai er mwyn camfanteisio yn rhywiol arnynt. Fe nododd un arall y gellid tynnu budd-dal diweithdra o'r pwynt bwled "galluogi eraill i gael mantais".

Fe nodwyd bod dynion digartref yn gynyddol yn cael eu targedu ar gyfer eu masnachu i lafur gorfodol y tu allan i'r Deyrnas Unedig.

Roedd tri ymatebydd yn amau cywirdeb y datganiad bod llawer o ddioddefwyr o blith plant yn blant sy'n ceisio lloches ar eu pennau eu hunain. Gallai hyn arwain at beidio â rhoi sylw i ddioddefwyr masnachu mewnol.

Awgrymodd un ymatebydd gynnwys y cosbau perthnasol ar gyfer y troseddau hyn ac roedd un arall yn meddwl y byddai'n ddefnyddiol crybwyll 'dangosyddion masnachu mewn pobl'. Byddai enghreifftiau o beth ydyw a phryd y mae'n digwydd hefyd yn helpu i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd.

Awgrymwyd y byddai cyfeirio at fasnachu mewn pobl fel un o'r tri math o drosedd mwyaf proffidiol yn y byd yn helpu i ddarlunio ei raddfa a'i ddifrifoldeb fel trosedd. Roedd yr ymatebydd hefyd yn ystyried y dylai gael ei gydnabod fel "ffurf ar gaethwasiaeth fodern."

Fe wnaeth yr ymatebwyr hefyd nodi bod grwpiau ac unigolion yn cyflawni troseddau masnachu mewn pobl ac fe all nifer fawr o unigolion neu grwpiau fod yn cymryd rhan wrth drefnu teithio a mynediad. Dylai'r datganiad nodi "gall dioddefwyr gael eu trosglwyddo o unigolyn i unigolyn a'u prynu a'u gwerthu fwy nag unwaith ar hyd eu taith."

Roedd dau ymatebydd yn hoffi bod y polisi yn cydnabod y gall y gwahaniaeth rhwng dioddefwyr sy'n cael eu smyglo a'r rhai sy'n cael eu masnachu fod yn aneglur. Ond, roedd un yn ystyried ei bod yn gamarweiniol nodi camfanteisio fel ffactor sy'n gwahaniaethu yn achos masnachu, roedd un arall yn amau a ddylid cynnwys cydsyniad wrth drafod smyglo. Cyflwynwyd rhestr o ffactorau sy'n pennu ar gyfer smyglo a masnachu mewn pobl gyda'r awgrym y gellid cynnwys tabl o gymariaethau yn yr adran hon i fod yn fwy eglur.

Fe nododd un ymatebydd nad yw'r berthynas â'r smyglwr bob amser yn dod i ben ar ôl cyrraedd; weithiau bydd yr unigolyn yn cael ei ddal nes derbynnir taliad. Nid oedd un ymatebydd yn ystyried bod dioddef amodau anniogel neu gamdriniaeth rywiol neu gorfforol yn ystod y daith yn debygol o gyfateb i fasnachu mewn pobl.

Roedd dau ymatebydd yn ansicr o ran beth a olygir wrth archwilio'r "sefyllfa yn y diwedd". Roedd ymatebydd arall am gael gwybod sut yr oedd gweithdrefn y CPS yn gwahaniaethu mewn achosion gydag elfennau o smyglo a masnachu mewn pobl ynddynt.

Tynnodd dau ymatebydd sylw at y ffaith nad yw'r datganiad yn cyfeirio o gwbl at ddeddfwriaeth smyglo. Fe nodwyd hefyd na ellir ystyried smyglo yn weithred wirfoddol i blant.

CWESTIWN 3: A yw rôl y CPS a'r esboniad o sut yr ydym yn gwneud penderfyniadau i erlyn yn glir? Os nad yw, awgrymwch sut y gallem wneud y ddwy adran hyn yn fwy eglur

Roedd 35 ymateb i'r cwestiwn hwn. Roedd 13 ymateb yn gadarnhaol a dau yn negyddol. Barn rhai o'r ymatebwyr eraill oedd mai dim ond rhannau o'r adrannau hyn oedd yn glir.

Er bod rhai yn fodlon bod esboniad clir a rhesymegol wedi ei roi, roedd eraill yn ystyried bod y geiriad yn rhy gymhleth, yn arbennig ar gyfer dioddefwyr a thystion. Awgrymwyd y gellid cynhyrchu fersiwn wedi ei symleiddio o'r ddogfen ar gyfer y gynulleidfa hon neu gellid rhoi cyfarwyddyd ar sut i esbonio'r datganiad i asiantaethau cefnogi.

Ategodd dau o'r ymatebwyr y dylai'r dioddefwyr gael eu hadnabod fel y prif fater dan sylw, yn hytrach nag erlyn y drwgweithredwyr. Nodwyd y byddai eu hadnabod yn gynnar a'u cefnogi yn helpu i sicrhau y byddant yn cydweithredu.

Roedd dau ymatebydd yn anghytuno â'r gosodiad bod gweithio effeithiol rhwng y CPS ac asiantaethau eraill. Fe wnaethant nodi bod angen cydnabod anawsterau ymarferol gweithio amlasiantaethol ac y dylid ymdrin â nhw yma er mwyn galluogi gwell cydlynu. Teimlid hefyd y dylid nodi rôl asiantaethau gwirfoddol.

Holodd dau ymatebydd pam nad yw'r heddlu yn cyfeirio pob cwyn am drosedd at y CPS; cynghorodd un arall y dylid tynnu'r frawddeg hon. Roedd un arall am weld rolau'r heddlu a'r CPS yn cael eu diffinio yn glir. Teimlai un ymatebydd bod y datganiad yn cefnogi'r duedd yn y CPS i roi blaenoriaeth i farn yr heddlu.

Dywedodd dau ymatebydd y bydd yr Asiantaethau Troseddau Cyfundrefnol Difrifol yn ffurfio'r Asiantaeth Troseddau Cenedlaethol yn fuan a theimlai un arall bod awgrym anghywir bod y Tîm Unigolion Agored i Niwed yn endid ar wahân. Meddyliai un ymatebydd y gallai fod o help nodi pwy yw'r awdurdodau erlyn eraill a datgan eu cylch gorchwyl.

O ran y penderfyniad i erlyn, teimlai un ymatebydd fod angen egluro'r gwahaniaeth yn y safon a weithredir gan y llys yn y cyfnod tystiolaethol. Roedd dau ymatebydd hefyd yn meddwl y gellid rhoi mwy o fanylion am y prawf trothwy; teimlai un arall y dylid cyfeirio at baragraff 3.10 o'r Cyfarwyddyd i Gyfarwyddwyr.

Awgrymodd un ymatebydd dynnu peth o'r testun a chynnwys dolenni at y Cod a'r ddeddfwriaeth, teimlent y gallai'r manylder presennol fod yn ormod i'r darllenydd. Yn yr un modd, awgrymodd un arall y dylid cynnwys y Cod fel atodiad. Byddai enghreifftiau o pryd y gellid defnyddio pob un o'r deddfau ac eglurhad ar y math a'r safon o dystiolaeth sy'n ofynnol ar gyfer y troseddau o gymorth hefyd.

Nododd un ymatebydd fod y geiriad dan Ddeddf Mewnfudo 1971 yn gamarweiniol wrth awgrymu nad yw adran 25 yn berthnasol i ddinasyddion yr Undeb Ewropeaidd, yn hytrach na nodi ei fod yn cyfeirio at hwyluso symudiad dinasyddion nad ydynt yn rhai'r Undeb Ewropeaidd. Roedd un arall am gynnwys diffiniad y Cenhedloedd Unedig o Drais yn Erbyn Menywod, Deddf Hawliau Dynol 1998 a Deddf Priodi Dan Orfodaeth (Diogelu Sifil) 2007.

Teimlai un ymatebydd fod y datganiad am erlyn ar ran y cyhoedd yn gyffredinol yn dangos agwedd negyddol tuag at drin dioddefwyr.

Roedd dau ymatebydd yn bryderus nad yw'r ddogfen yn ymddangos fel pe bai yn rhoi ystyriaeth i farn y plentyn yn y penderfyniad i erlyn. Dim ond cyfeirio at farn teulu'r dioddefwyr y mae'r esboniad ac fe nodwyd y gallai rhiant y dioddefydd fod â rhan yn eu masnachu. Fe all y plentyn hefyd fod yn geisiwr lloches ar ei ben ei hun, ac yna gellid ceisio barn yr Awdurdod Lleol.

Teimlai un ymatebydd fod angen gwahaniaethu yn gliriach rhwng erlyn troseddwyr sy'n oedolion a phlant sy'n ddioddefwyr sydd wedi cael eu gorfodi i droseddu ganddynt. Fe wnaethant nodi pryderon na fydd plant bob amser yn cael eu cydnabod fel dioddefwyr y masnachu.

Roedd un ymatebydd am i'r CPS ystyried y tebygolrwydd y bydd yr un sy'n masnachu mewn pobl yn parhau i gamfanteisio ar blant os na fydd yn cael ei erlyn. Teimlai un arall y dylai'r datganiad gydnabod yn glir y 'diwylliant o anghrediniaeth' sydd ynglŷn â masnachu mewn plant.

Teimlai un ymatebydd na ddylai'r CPS byth wneud y penderfyniad i erlyn dioddefwyr masnachu mewn plant y camfanteisiwyd arnynt at ddibenion troseddol. Barn ymatebwr arall oedd na ddylid erlyn unrhyw ddioddefwyr pan gyflawnwyd y gweithgaredd troseddol dan orfodaeth. Dylai'r polisi gadarnhau y bydd hyfforddiant addas yn cael ei roi i erlynwyr.

Gofynnwyd am esboniad a yw'r erlynwyr arbenigol y cyfeirir atynt yn cael eu cyflogi gan y CPS.

O ran lles y cyhoedd, gofynnodd un ymatebydd am eglurhad o ran y diffiniad o "ddedfryd sylweddol", a restrir fel ffactor i'w hystyried dan y prawf lles y cyhoedd. Fe wnaeth un arall awgrymu cynnwys bygythiad o drais yn erbyn teulu'r dioddefydd fel ffactor. Byddai enghreifftiau penodol o adegau pan all ffactorau lles y cyhoedd dueddu yn erbyn erlyn o gymorth. Nododd ymatebwyr eraill y dylid cydnabod y gall troseddau masnachu mewn pobl gael eu cyflawni gan unigolion. Roedd un ymatebydd hefyd am gydnabod y ffaith nad yw dioddefwyr bob amser yn agored i niwed ond y gallant gael eu twyllo.

Roedd un ymatebydd am iddi gael ei gwneud yn glir, mewn achosion pan benderfynir peidio ag erlyn, nad yw hyn yn golygu nad yw'r dioddefydd yn cael ei gredu. Roedd un arall am i'r ddogfen nodi'r cyfyngiad amser cyn i'r CPS hysbysu'r dioddefydd yn ysgrifenedig am ei benderfyniad i erlyn neu beidio. Dylai'r llythyr roi manylion gwasanaethau cefnogi os penderfynu peidio ag erlyn a wneir.

Teimlai un ymatebydd y dylai'r ddogfen danlinellu pwysigrwydd cyswllt y CPS â'r Swyddfa Gartref pan fydd achosion mewnfudo yn yr arfaeth. Teimlid y dylai'r tribiwnlys ystyried, ar ôl cynorthwyo i erlyn masnachwr mewn pobl, a fyddai'r dioddefwyr yn agored i niwed ar ôl dychwelyd i'w gwlad wreiddiol. Teimlai ymatebydd arall y dylid esbonio'n glir i ddioddefwyr y gallant gael eu symud o'r wlad ar ôl cymryd rhan mewn erlyniad.

Credai un ymatebydd fod yr esboniadau hyn yn annelwig ar erlyn achosion yn y Deyrnas Unedig.

Yn olaf, argymhellwyd y dylai'r datganiad grybwyll cyfraniad gweithwyr iechyd proffesiynol wrth asesu'r niwed posibl i ddioddefwyr sy'n cymryd rhan mewn erlyniadau.

CWESTIWN 4: A ydym wedi darparu digon o esboniad o sut yr ydym yn creu erlyniad mewn achosion o fasnachu mewn pobl? A oes digon o esboniad o rôl y dioddefydd a beth ellir ei wneud i gefnogi dioddefwyr a thystion?

Roedd 36 o ymatebion i'r cwestiwn hwn. O'r rhain, roedd 15 ymateb yn gadarnhaol yn gyffredinol. Roedd dau ymateb negyddol. Awgrymodd nifer o ymatebwyr ffyrdd y gellid gwella'r esboniadau a roddwyd.

Fe wnaeth rhai ymatebwyr gydnabod bod lefel y manylion yn ddigonol ar gyfer dibenion y ddogfen, er bod un wedi awgrymu y dylai gael ei chefnogi gan gyfarwyddyd gweithredol mwy manwl, ar wahân.

O ran creu achos, roedd un ymatebydd yn meddwl bod yr esboniad yn canolbwyntio ar fasnachu mewn pobl yn rhyngwladol ac nad oedd yn cynnwys gwybodaeth am greu achosion o fasnachu mewn pobl yn y Deyrnas Unedig. Ond, roedd un arall am gael mwy o fanylion ar yr agwedd ryngwladol, gan gynnwys manylion am rôl EUROJUST a'r 'llythyr cais'. Tynnwyd sylw hefyd at bwysleisio pwysigrwydd tarfu ar fasnachwyr cyfundrefnol mewn pobl. Dylai'r adran hon hefyd nodi bod rhai achosion yn cael eu cychwyn o dramor yn unig ar ôl i'r dioddefydd ddychwelyd i'w wlad wreiddiol. Gall gweithdrefnau ymchwilio mewn gwlad arall hefyd gael eu cychwyn o'r Deyrnas Unedig mewn achosion pan fydd dioddefydd wedi dod i'r Deyrnas Unedig i gael lloches.

Awgrymodd un ymatebydd y dylai "creu achos" gael ei gyfnewid am "erlynwyr yn gweithio gydag ymchwilwyr i sicrhau bod ymholiadau a thystiolaeth yn cael eu holrhain i lunio achos cryf". Roedd un arall yn gadarnhaol am yr olwg gyffredinol a roddir ond yn teimlo y dylai gael ei chynnwys yn gynharach yn y ddogfen.

Gofynnwyd a ellir defnyddio tystiolaeth a roddir i Gyrff Anllywodraethol i greu achos, gyda neu heb ganiatâd y dioddefydd.

Roedd un ymatebydd am iddi gael ei gwneud yn glir, i gymaint o raddau ag sy'n bosibl, ac o ystyried y dystiolaeth sydd ar gael, y dylai erlynwyr ddewis cyhuddiadau sy'n adlewyrchu profiadau'r dioddefydd yn hytrach na'r rhai sydd â'r potensial mwyaf o ran dedfrydu.

Roedd nifer o awgrymiadau ar sut i wella'r esboniadau. Roedd yr enghreifftiau yn cynnwys: pwysleisio pwysigrwydd ymgynghori cynnar ag aelod profiadol o'r CPS; rhoi rhagor o wybodaeth am rwymedigaethau erlynwyr; esbonio sut y

mae erlynwyr yn cydlynu ag arbenigwyr; cydnabod y gall dioddefwyr masnachu mewn pobl ddal fisâu dilys.

Fe wnaeth nifer o ymatebwyr sylwadau am adnabod dioddefwyr yn gynnar, eu diogelu a'u cyfeirio trwy'r Mecanwaith Cyfeirio Cenedlaethol; teimlent ei bod yn holl bwysig i hyn gael ei gynnwys yn ddigonol yn y polisi. Dylid cydnabod pwysigrwydd hyn o ran sicrhau eu tystiolaeth a'u cydweithrediad a fydd yn allweddol wrth greu achos. Nodwyd y gall oedolion a phlant gael eu symud trwy'r System Cyfiawnder Troseddol heb ystyried eu statws posibl fel dioddefwyr masnachu mewn pobl.

Credai un ymatebydd y dylai'r datganiad gyfeirio at y math o iaith a ddefnyddir yn gyffredin gan blant. Byddai hyn yn sicrhau bod eu profiadau, er nad ydynt yn cael eu disgrifio ganddynt fel 'masnachu mewn pobl' a chael eu 'gorfodi', yn dal i gael eu cydnabod fel rhai sy'n dod dan y diffiniad o fasnachu mewn pobl. Teimlent hefyd y dylai erlynwyr wirio a gwneud yn siŵr bod plentyn sydd wedi ei fasnachu a'i ganfod felly yn cael ei gyfeirio at y gwasanaethau amddiffyn plant.

Nid oedd un ymatebydd yn cytuno bod mabwysiadu anghyfreithlon neu briodi dan orfodaeth yn cyfateb i fasnachu mewn plant. Dylai'r adran ar blant hefyd ddatgan yn glir nad oes raid i'r plant dystio i orfodaeth a thwyll.

Gwnaeth chwech o'r ymatebwyr sylw ar y cyfeiriad at y prosiect POPPY fel darparwr cefnogaeth arbenigol. Fel prosiect sy'n benodol i ryw, nid yw'n berthnasol i'r holl ddioddefwyr a thystion a theimlid y gallai ei ddewis ddangos diffyg ystyriaeth i ddioddefwyr sy'n ddynion, plant a darparwyr cefnogaeth eraill.

Credai un ymatebydd y gallai'r ddogfen fod yn fwy manwl o ran y math o gefnogaeth a diogelu a roddir pan fydd dioddefwyr a thystion yn penderfynu rhoi tystiolaeth. Roedd pryder y gellid awgrymu yn y datganiad y disgwylir mwy o ddiogelu nag y gellid ei ddarparu yn realistig. Roedd un arall yn ystyried y dylid esbonio'r gefnogaeth sydd ar gael pan na fyddant yn dymuno rhoi tystiolaeth hefyd, gan gynnwys cyfeiriad at sut y mae'r CPS yn gweithio gyda Chyrff Anllywodraethol. Teimlai ymatebydd y dylid crybwyll y canlyniadau posibl i'r dioddefwyr a'r mathau o gefnogaeth gyfatebol hefyd.

Roedd y sylwadau eraill ar sut i gefnogi dioddefwyr a thystion yn cynnwys mwy o fanylion ar ymweliadau cynefino a nodi pwy sydd â chyfrifoldeb am eu hysbysu am y dyfarniad a'r ddedfryd. Gellid hefyd gynnwys crynodeb byr o'r rhesymau dros beidio â mynd ag achos yn ei flaen neu amrywio'r cyhuddiad dan 'parhau i roi gwybodaeth i ddioddefwyr'. Teimlai un ymatebydd fod y ddogfen yn annelwig am ddiogelu, cyfrinachedd a chadw dioddefwyr yn anhysbys.

Gofynnodd pump o'r ymatebwyr am ragor o fanylion am y Mecanwaith Cyfeirio Cenedlaethol, y mathau o gefnogaeth sydd ar gael yn arbennig. Roedd dau hefyd am gael esboniad o 'ymatebwyr cyntaf' a'u rôl ac roedd un arall am i wybodaeth gael ei chynnwys ar sut mae'r broses, y diogelu a'r

hawliau yn amrywio ar gyfer dioddefwyr masnachu plant. Mynegodd un ymatebydd bryderon y gall asesiad i blentyn gael ei gynnal gan rywun heblaw gweithiwr cymdeithasol cymwys neu rywun nad yw'n arbenigwr ar amddiffyn plant. Gofynnodd ymatebydd arall am nodi ym mha amgylchiadau y gellir datgelu'r ffurflen gyfeirio i'r amddiffyniad. Yn olaf, gofynnwyd hefyd i'r adran ar y Mecanwaith Cyfeirio Cenedlaethol grybwyll y gellir cael trwydded i breswylio oherwydd amgylchiadau personol.

Hefyd dan y Mecanwaith Cyfeirio Cenedlaethol, fe nodwyd y dylid cynnwys y geiriau "y gellir eu hymestyn" ar ôl "cyfnod 45 diwrnod i fyfyrio". Teimlai un ymatebydd hefyd y dylai'r adran hon gyfeirio at rôl y CPS yng nghyswllt y Mecanwaith Cyfeirio Cenedlaethol.

Teimlai llawer y gallai'r ddogfen ddarlunio ymhellach pam mae cyndynrwydd ar ran y dioddefydd i gymryd rhan mewn achosion troseddol, fel rhagor o esboniad ar y mathau o gamdriniaeth a ddioddefwyd a'u heffaith ar y dioddefydd. Roedd un arall am weld cyfeiriad at y ffaith y gall masnachwyr mewn pobl blannu storïau ym meddyliau'r dioddefwyr. Nododd un ymatebydd hefyd y gall camau yn ymwneud â mewnfudo hefyd fod yn ffactor yn eu cyndynrwydd.

Croesawyd y gydnabyddiaeth yn y datganiad y bydd profiadau dioddefwyr o fasnachu mewn pobl yn amrywio yn ôl y gwahanol ffactorau. Ond, teimlai dau ymatebydd y dylai rhyw hefyd gael ei gynnwys fel rhywbeth dylanwadol.

Roedd un ymatebydd yn meddwl bod y cyfeiriad at "gariad" ("boyfriend" yn Saesneg) yng nghyswllt pobl ifanc a phlant sy'n cael eu masnachu ar gyfer camfanteisio yn rhywiol arnynt yn y Deyrnas Unedig yn dangos tuedd at un rhyw ac yn awgrymu mai dim ond menywod sy'n dioddef y math hwn o gamfanteisio. Nododd un arall y gall oedolion agored i niwed hefyd gael eu masnachu yn yr un ffordd (h.y. o dŷ i dŷ, dinas i ddinas er mwyn camfanteisio yn rhywiol arnynt).

Awgrymodd un ymatebydd y dylai rhif ffôn Taclo'r Tacle (Crimestoppers) gael ei gynnwys i'r cyhoedd a dioddefwyr roi adroddiad ar achosion o fasnachu mewn pobl. Teimlai ymatebydd arall y dylid cynnwys manylion asiantaethau cefnogi a'u manylion cyswllt hefyd.

Gofynnodd un ymatebydd am gyfeiriad at y Safonau Cofnodi Troseddau Cenedlaethol neu eu bod yn cael eu cynnwys yn yr atodiad.

Yn olaf, awgrymwyd, dan yr adran dioddefwyr a thystion, fod y paragraff ar "ffurfiau meddalach o orfodi" yn cael ei aileirio gan roi pwyslais ar natur fwy cyfrwys y masnachwr.

CWESTIWN 5: A ydym yn dangos yn glir sut yr ydym yn ymdrin â phlant fel dioddefwyr a thystion a'n polisi pan fydd plentyn yn wynebu cyhuddiadau am droseddau y maent yn

cael eu gorfodi i'w cyflawni tra byddant mewn sefyllfa o orfodaeth?

Roedd 31 o ymatebion i'r cwestiwn hwn. Roedd 14 o'r ymatebwyr yn ystyried, ar y cyfan, fod y datganiad polisi yn glir ar y maes hwn. Cyfeiriodd un ymatebydd at yr hyn a gyflwynwyd gan un arall yng nghyswllt y cwestiwn hwn.

Roedd chwech o'r ymatebwyr o'r farn nad yw'r polisi ar y maes hwn yn glir. Roedd un ymatebydd yn ystyried nad yw'r materion neilltuol sy'n ymwneud yn benodol â phlant wedi cael eu cynnwys yn y datganiad.

Nodwyd y gall plentyn sydd wedi bod yn ymwneud â gweithgareddau troseddol fod heb ei adnabod gan y system cyfiawnder troseddol fel un sydd wedi dioddef masnachu mewn plant ac o ganlyniad, yn dyst. Roedd ymatebydd arall am i'r datganiad danlinellu'r ddyletswydd sydd ar erlynwyr i adnabod dioddefwyr masnachu mewn pobl a pheri i ymchwiliadau gael eu cynnal (Re O [2008] EWCA Crim 2834).

Y prif bryder i ymatebwyr oedd yr elfen o orfodaeth. Roeddent yn dehongli bod y ddogfen yn datgan y gall yr erlyniad gael ei derfynu os ceir tystiolaeth o orfodaeth. Teimlid na fydd rhai plant yn sylweddoli eu bod wedi cael eu gorfodi neu efallai na fyddant yn deall y term hwn, gan eu gwneud yn analluog i fodloni'r gofyn tystiolaethol hwn. Aeth tri ymatebydd ymlaen wedyn i ystyried bod y polisi, trwy ddatgan mai dyma'r sail ar gyfer terfynu erlyniad, yn groes i Brotocol Palermo.

Awgrymodd nifer o ymatebwyr, pan fydd plentyn wedi cael ei adnabod fel dioddefydd masnachu, na ddylid ei erlyn, os gellir profi gorfodaeth neu beidio. Roedd dau ymatebydd o'r farn hefyd, pan fydd yn cael ei ddatgelu gan yr heddlu mewn sefyllfaoedd penodol, y dylid tybio bod y plant yn ddioddefwyr masnachu, gan gyflawni'r drosedd o ganlyniad uniongyrchol i hynny.

Rhannodd nifer eu pryderon am droseddoli a charcharu dilynol ar blant a ddioddefodd fasnachu, gan gyfeirio at enghreifftiau pan na fydd plant wedi cael eu hadnabod gan y system gyfiawnder fel dioddefwyr sydd angen eu diogelu.

Roedd un ymatebydd, fodd bynnag, yn ystyried bod y datganiad yn glir wrth esbonio ei ddull; na all y CPS fabwysiadu polisi o beidio ag erlyn yn yr achosion hyn ond y byddai bob amser yn ceisio terfynu'r erlyniad pan fydd y dystiolaeth yn cefnogi'r casgliad hwn.

Roedd y frawddeg ganlynol yn peri pryder: "Bydd erlynwyr yn ystyried yr effaith ar blentyn yn ofalus cyn gwneud y penderfyniad i erlyn, ond os yw'r drosedd yn ddifrifol a'r dystiolaeth yn ddigon cryf, bydd y CPS fel arfer yn erlyn." Roedd yr ymatebwyr yn ansicr a oedd y frawddeg yn cyfeirio at erlyn y plant neu'r rhai a fu'n eu masnachu.

Awgrymodd dau ymatebydd, er mwyn eglurder, y dylai'r esboniad am y penderfyniad i erlyn plant sydd wedi cyflawni troseddau fod ar wahân i'r drafodaeth ar blant fel dioddefwyr.

Fe ail-ddywedwyd bod angen i'r datganiad gydnabod yn glir bod masnachu mewn plant yn gyntaf ac yn bennaf yn fater amddiffyn plant. Roedd un o'r ymatebwyr am ei weld yn cael ei ddatgan bod hyn yn gofyn i fuddiannau'r plentyn gael eu cynnwys yn yr holl benderfyniadau amdano ef neu hi ac y dylai asesiadau risg gael eu cynnal.

Awgrymwyd y byddai nodi'r rhesymau pam bod plant yn arbennig o agored i niwed yn cryfhau'r adran ar fasnachu mewn plant.

Nododd un ymatebydd hefyd y dylai'r ddogfen gydnabod yr anawsterau a ddioddefir gan blant sy'n ddioddefwyr wrth ddatgelu eu profiadau. Awgrymwyd y gallai erlyniadau sy'n ymwneud â throseddau masnachu mewn pobl gael eu gohirio i roi amser i blant sy'n ddioddefwyr ddatgelu manylion am eu camdriniaeth.

Gwnaeth un ymatebydd y sylw y dylai plant sydd wedi dioddef masnachu gael eu trin yn yr un modd â phlant sydd yn ddioddefwyr troseddau dan Ddeddf Troseddau Rhywiol 2003. Hynny yw, fel dioddefwyr camdriniaeth y dylid eu cyfeirio at y gwasanaethau amddiffyn plant. Gwnaeth un arall sylwadau tebyg yng nghyswllt puteinio dan orfodaeth, gan ofyn i'r geiriau ar dudalen 24 dan 'pryd i erlyn' gael eu newid i adlewyrchu hyn. Nododd ymatebydd y dylai'r term puteinio gael ei ddisodli gan 'gamfanteisio arno yn rhywiol' wrth gyfeirio at unigolion dan 18 oed.

Roedd ar un ymatebydd angen rhagor o esboniad ar sut y mae'r CPS yn cynorthwyo plant wrth roi tystiolaeth, un arall o ran cyfarwyddo â llysoedd. Ond roedd dau yn meddwl eu bod wedi eu nodi yn dda yn y datganiad.

O ran dynodi oedran y dioddefydd, roedd un ymatebydd yn croesawu bod y ddogfen yn nodi'r protocol petai anghydfod am oedran yn codi. Gwnaeth dau arall sylw am yr anhawster a all godi pan fydd gwahaniaeth mewn oedran rhwng yr un a bennir gan y llys a'r un a bennir ar wahân gan yr awdurdod lleol; dylai erlynwyr felly gael eu cynghori i hysbysu'r llys am unrhyw asesiad oedran a gynhaliwyd gan yr awdurdod lleol.

Awgrymodd un ymatebydd y byddai o gymorth cael erlynwyr arbenigol sydd â'r wybodaeth a'r sgiliau i gyfathrebu yn effeithiol â phlant ac ymdrin ag achosion plant.

Cynghorwyd y dylai'r polisi gydnabod y gall menywod hefyd fod yn camfanteisio, gan weithredu fel gofalydd neu ffrind i'r plentyn.

Teimlai un ymatebydd y dylid crybwyll teulu'r dioddefydd/tyst sy'n blentyn a'u cydnabod fel dioddefwyr eilaidd.

Roedd dau o'r ymatebwyr yn ystyried bod yr adran ar gaethwasanaeth domestig yn dangos tuedd tuag at fenywod, gan beidio â rhoi sylw i ddynion ifanc a phlant.

Nododd dau ymatebydd hefyd nad yw'r ddogfen yn rhoi gwybodaeth ar sut i gysylltu ag asiantaethau cefnogi i blant a dynion ifanc.

Nododd dau ymatebydd fod gorbwyslais ar bobl ifanc yng ngofal yr awdurdodau lleol sy'n dioddef camfanteisio rhywiol. Roedd ymatebydd arall hefyd am weld sôn am y risg wirioneddol y bydd plant sydd wedi dioddef masnachu yn mynd ar goll.

Sylwadau eraill i'w nodi: dim cyfeiriad at fasnachu mewn pobl er mwyn twyll budd-daliadau; mae'r term 'masnachu mewnol mewn pobl' wedi ei greu mewn modd anghywir, gan achosi gwahaniaeth diddefnydd rhwng dioddefwyr o'r Deyrnas Unedig a symudwyd i'r fan lle maent yn cael eu cam-drin a'r rhai nad ydynt wedi'u symud; nid oes sôn am gyfryngwyr yn yr adran ar fesurau arbennig; dylid cyfeirio at gyfarwyddyd Llywodraeth Cynulliad Cymru hefyd.

CWESTIWN 6: A yw rôl erlynwyr wrth dderbyn pledion a dedfrydu yn glir? A oes angen i ni roi mwy o wybodaeth i esbonio dulliau eraill o darfu ar fasnachwyr mewn pobl?

Roedd 30 ymateb i'r cwestiwn hwn. Roedd mwyafrif yr ymatebion yn gadarnhaol ar y cyfan. Gofynnodd chwech o ymatebwyr am ragor o wybodaeth ar ddulliau o darfu ar fasnachwyr mewn pobl.

Roedd un ymatebydd yn negyddol am rôl erlynwyr gan fod y polisïau a'r arferion a amlinellir yn y polisi yn peri pryder iddynt. Ystyrient y dylai erlynwyr gynnal adolygiadau achos cyson a gosod y dioddefydd yn ganolog yn yr holl waith llunio penderfyniadau ar sail achos, gan gynnwys y ple a'r dedfrydu.

Nododd dau ymatebydd, er y gall diffynnydd gynnig ple euog i gyhuddiadau sy'n cynnig mwy o botensial o ran dedfrydu na throseddau masnachu mewn pobl, y byddai dilyn y rhain yn hytrach na'r cyhuddiadau yn ymwneud â masnachu mewn pobl yn anghymwynas i ddioddefwyr a'r rhai sy'n gweithio i'w cefnogi. Roedd un ymatebydd yn ystyried y dylid ymgynghori â'r dioddefydd cyn derbyn ple euog mewn achlysuron o'r fath.

Teimlai dau o'r ymatebwyr y dylai'r datganiad grybwyll yr angen i ystyried buddiannau dioddefwyr wrth wneud gorchmynion iawndal ac atafaelu. Cyfeiriodd un at adran 301 o Ddeddf Elw Troseddau 2002 (POCA) yng nghyswllt atafaelu arian parod a'i fforffedu. Nodwyd y byddai erlynwyr, trwy ystyried y ddarpariaeth hon, yn medru ystyried a yw cyfran o elw'r masnachwr mewn pobl yn eiddo i'r dioddefydd ac a ellid talu unrhyw hawliad am iawndal o'r asedau a atafaelwyd (adran 13(6) POCA).

Roedd ymatebydd arall am i'r ddogfen egluro pwy fydd yn rhoi gwybod i'r dioddefwyr am y dewis i wneud ceisiadau am iawndal ac amseriad hyn. Ceisiwyd rhagor o esboniad hefyd ar faterion yn gysylltiedig â cheisio a chael Iawndal Anafiadau Troseddol cyn achos.

Awgrymodd dau ymatebydd y dylid cynnwys Gorchmynion Atal Troseddau Difrifol dan y gorchmynion ategol neu ychwanegol.

Ystyrid nad yw'r ddogfen yn glir o ran pam na ellir cyfeirio rhai troseddau masnachu mewn pobl at y Llys Apêl petai dedfryd yn rhy ysgafn.

Gwnaeth tri ymatebydd sylwadau ar yr adran 'erlyn personau drwgdybiedig a allai fod wedi dioddef cael eu masnachu'. Holodd un a oes digon o dystiolaeth i gyfeirio yn y polisi at y ffaith bod plant yn cael eu masnachu ar gyfer tyfu canabis. Roedd un arall am i'r datganiad nodi y gall fod gofyn i fechgyn a dynion ifanc y camfanteisir arnynt yn rhywiol gymell dioddefwyr eraill i sefyllfa lle camfanteisir yn rhywiol arnynt oherwydd eu sefyllfa. Gall hyn gamarwain awdurdodau i'w galw yn droseddwyr yn hytrach na dioddefwyr. Awgrymwyd hefyd y dylai'r adran hon ymddangos yn gynt yn y ddogfen.

Nododd dau ymatebydd y gall pobl ifanc sy'n ymddangos fel tystion i gamfanteisio rhywiol fod yn ddioddefwyr eu hunain mewn gwirionedd nad ydynt wedi datgelu'r gamdriniaeth y maen nhw wedi ei dioddef.

Roedd gwahaniaeth barn ar yr adran 'dulliau eraill o darfu ar fasnachu mewn pobl'. Roedd un ymatebydd o'r farn bod digon o fanylion wedi cael eu cyflwyno ar y maes hwn, tra bod eraill yn teimlo y gellid ei ddatblygu ymhellach, gan geisio rhagor o esboniad ac eglurhad ar y dulliau. Roedd un yn arbennig am gael rhagor o wybodaeth yng nghyswllt tarfu ar fasnachu mewnol mewn pobl a masnachu mewn pobl o'r tu allan i'r Undeb Ewropeaidd.

Teimlai ymatebydd arall y gellid cryfhau'r adran hon trwy bwysleisio pwysigrwydd datblygu cydweithredu rhyngwladol gyda'r bwriad o darfu ar rwydweithiau mwy.

Nododd un ymatebydd y dylai'r rhan hon o'r polisi gydnabod y cyswllt clir rhwng puteindra, masnachu mewn pobl ar gyfer camfanteisio rhywiol a throseddau cyfundrefnol, ac y daw'r tarfu o weithredu deddfwriaeth 'gredadwy' i dargedu prynwyr, hysbysebwyr a hwyluswyr. Yn benodol, y rhai sy'n cefnogi'r diwydiant rhyw ac yn gwneud elw ohono.

Awgrymodd un ymatebydd y gellid cynnwys hyperddolenni yn yr adran am darfu.

Ystyriai ymatebydd arall nad oedd y datganiad yn rhoi gwybodaeth o ran agweddau rhyngwladol masnachu mewn pobl ac y gellid rhoi mwy o eglurhad. Roedd un arall yn ystyried y byddai o gymorth cynnwys disgrifiad o'r masnachwyr mewn pobl a'r modd y maent yn gweithredu.

CWESTIWN 7: Unrhyw sylwadau eraill am y ddogfen?

Roedd 25 ymateb i'r cwestiwn hwn.

Croesawodd saith o ymatebwyr y datganiad polisi gan roi sylwadau cadarnhaol ar ei fformat clir, cryno ac effeithiol. Canmolodd un ymatebydd y CPS am gymryd golwg ddiffiniol ar y maes hwn a chydnabod yr angen i ddwyn y rhai sy'n cyflawni troseddau masnachu mewn pobl o flaen eu gwell.

Roedd llawer o'r sylwadau yn ailadrodd y farn a fynegwyd trwy gydol y ddogfen. Er enghraifft, atgyfnerthwyd y farn bod angen dull aml-asiantaethol i frwydro yn erbyn masnachu mewn pobl. Hefyd, yr angen i gydnabod bod dynion a bechgyn ifanc hefyd yn dioddef oherwydd masnachu mewn pobl.

Yn yr un modd, fe awgrymwyd eto na ddylid enwi grwpiau cefnogi penodol, fel POPPY yn y brif ddogfen i osgoi tuedd tuag at un rhyw a dilorni gwaith prosiectau ac asiantaethau eraill.

Nododd dau ymatebydd asiantaethau cefnogi eraill i'w cynnwys yn Atodiad B: Rhwydwaith y Deyrnas Unedig o brosiectau Gwaith Rhyw a'r Gweithgor Cenedlaethol ar gyfer plant a phlant ifanc y camfanteisir yn rhywiol arnynt.

Nododd un ymatebydd mai Kalayaan yw'r corff anllywodraethol sy'n darparu cefnogaeth i ddioddefwyr caethwasanaeth domestig, er bod un arall yn ystyried mai rhoi cyngor i weithwyr domestig mudol sydd wedi dod i mewn i'r Deyrnas Unedig yn gyfreithlon yw ei gylch gorchwyl.

Ailadroddwyd y dylai'r datganiad esbonio sut y mae'r CPS yn gweithio i darfu ar rwydweithiau masnachu mewn pobl yn y Deyrnas Unedig a'r tu allan i'r Undeb Ewropeaidd. Mynegwyd barn hefyd fod y datganiad yn annelwig o ran masnachu mewn pobl gan rwydweithiau troseddol llai cyfundrefnol.

Roedd un ymatebydd am iddi fod yn glir bod Canolfan Masnachu Mewn Pobl y Deyrnas Unedig yn rhan o'r Asiantaeth Troseddau Cyfundrefnol Difrifol a gofynnodd i rôl y Ganolfan gael ei hesbonio'n glir. Ychwanegodd yr ymatebydd y dylid cynnwys manylion cyswllt ar gyfer y Ganolfan a'r Mecanwaith Cyfeirio Cenedlaethol hefyd.

Pwysleisiodd un ymatebydd y pwysigrwydd i erlynwyr ddod yn gyfarwydd â'r datganiad polisi a chael eu hyfforddi ynddo. Awgrymodd un arall y gallai fod yn ddefnyddiol hefyd i staff meddygol fod yn gwybod am y ddogfen fel eu bod yn medru dod o hyd i ddioddefwyr posibl masnachu mewn pobl yn eu gwaith.

Nodwyd hefyd y bydd yn ofynnol cael cytundeb lleol cyfatebol i gefnogi'r datganiad e.e. yn cynnwys manylion erlynwyr arbenigol. Byddai un arall yn hoffi gweld cynnwys cyngor ymarferol yn y ddogfen, fel rôl yr asiantaeth gefnogi wrth gynorthwyo dioddefydd trwy'r broses yn y llys.

Anghytunai un ymatebydd y byddai dioddefwyr llafur gorfodol a chaethwasanaeth domestig yn "ystyried eu sefyllfa yma yn llawer gwell na'r

un yn eu gwlad wreiddiol". Roedd un arall am gael rhagor o fanylion ar faes llafur gorfodol a chaethwasanaeth domestig, a phwysleisiodd mai'r maen prawf diffiniol allweddol ar gyfer y math hwn o fanteisio yw'r elfen anwirfoddol yn hytrach na'r ffurf o weithgaredd sy'n cael ei gyflawni gan y dioddefydd. Nodwyd hefyd fod y math hwn o gamfanteisio yn digwydd yn ffurfiol ac anffurfiol.

Tynnodd ymatebydd arall sylw at y ffaith bod gwaith gorfodol yn cael ei ddiffinio gan waith sydd "(a) yn cael ei gymell dan fygythiad o unrhyw gosb, sydd (b) yn cael ei gyflawni yn groes i ddymuniad yr unigolyn dan sylw." Roeddent yn meddwl bod y datganiad yn anghywir wrth awgrymu bod cyflogau isel ac amodau gwaith gwael yn feini prawf diffinol. Roeddent hefyd yn gwrthod y datganiad a gyflwynwyd yn y ddogfen fod llai o ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o fasnachu mewn pobl ar gyfer llafur gorfodol.

Awgrymodd un ymatebydd y dylai'r ddogfen amlinellu ffactorau a all fod yn arwydd o sefyllfa o lafur gorfodol.

Roedd un ymatebydd o'r farn, yn unol â bwriad adran 71 Deddf Crwneriaid a Chyfiawnder 2009, na ddylid ceisio erlyn dioddefwyr llafur gorfodol. Y farn oedd y byddai gwneud hynny yn groes i'r bwriad seneddol wrth dderbyn y ddeddfwriaeth hon.

Rhoddwyd rhagor o awgrymiadau ar sut i gryfhau'r ddogfen. Roedd y rhain yn cynnwys rôl y tribiwnlys cyflogaeth wrth gynnig atebion a thrwy gynnwys dolenni i gyrff cefnogi.

Credid bod y datganiad yn anghywir wrth awgrymu bod y rhan fwyaf o ymfudwyr cyfreithlon mewn perygl arbennig o ddioddef masnachu mewn pobl.

Rhoddodd un ymatebydd nifer o sylwadau ar yr adran 'Beth yw masnachu mewn pobl?', sef: "A yw tynnu organau yn dal i gael ei ystyried yn fasnachu mewn pobl?"; nodi bod y term caethwasiaeth yn "anhygoel o generig a does bosibl ei fod yn cynnwys yr holl ffurfiau ar fasnachu mewn pobl a restrir"; er mwyn bod yn gyson fe wnaeth gynghori y dylid defnyddio un term i gyfeirio at y masnachwr mewn pobl (yn hytrach nag amrywio rhwng hwn a thermau eraill fel 'rheolwr').

Roedd dau o'r ymatebwyr am i'r ddogfen nodi bod masnachu mewn pobl yn groes i hawliau dynol.

Gofynnwyd am esboniad i'r frawddeg ganlynol: "Rhaid rhoi ystyriaeth i'r graddau y gorfodwyd y dioddefydd i gyflawni'r gweithgaredd anghyfreithlon". Holent sut y gellir pennu hyn. Gofynnwyd hefyd beth a olygir wrth fod yn droseddol "o ganlyniad uniongyrchol i'r sefyllfa masnachu mewn pobl" .

Dylid cydnabod bod plant a phobl ifanc sy'n dioddef camfanteisio rhywiol yn aml yn cael eu symud ar draws nifer o drefi a dinasoedd.

Teimlid hefyd y dylid pwysleisio pwysigrwydd iawndal i erlynwyr, gan nodi y gall y rhain weithredu mewn dulliau amrywiol; cosbol, ataliol a rhwystrol.

Pwysleisiodd un ymatebydd bwysigrwydd ymwybyddiaeth ac atal, a nododd y gall digwyddiadau chwaraeon mawr fod yn gatalydd ar gyfer masnachu mewn pobl, gan greu galw am fenywod sydd wedi eu masnachu. Dylai hyn fod yn ystyriaeth bwysig wrth gynllunio digwyddiadau o'r fath.

Yng nghyswllt yr adran ar erlyn rhai dan amheuaeth a all fod yn ddioddefwyr masnachu mewn pobl, gofynnodd un ymatebydd am esboniad sut y byddai tystiolaeth am gamfanteisio neu fasnachu mewn plant yn cael ei chasglu a sut y byddai hyn yn cael ei bennu fel amddiffyniad credadwy o orfodaeth. Fe wnaeth nodi'r cyfarwyddyd a gyhoeddwyd gan Gymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu (Mawrth 2010).

Roedd un ymatebydd yn ystyried, o feddwl bod cyn lleied o achosion, na ddylid cyfeirio at siopau trin ewinedd fel mannau lle ceir camfanteisio.

Holodd un ymatebydd am y sefyllfa yng Ngogledd Iwerddon (D.S. Nid yw'r ddogfen hon yn berthnasol i Ogledd Iwerddon. Mae Gwasanaeth Erlyn Cyhoeddus Gogledd Iwerddon yn bwriadu llunio datganiad tebyg).

Mynegodd un ymatebydd y farn na ddylai dioddefwyr masnachu mewn pobl sy'n gweithredu dan orfodaeth gael eu herlyn ac mae'n "cynghori'r CPS yn gryf i weithredu camau a fydd yn sicrhau bod erlyn dioddefwyr masnachu mewn pobl yn dod i ben yn y Deyrnas Unedig".

Casgliad

Mae'r CPS yn ddiolchgar i bawb sydd wedi ymateb i'r ymgynghoriad ac am yr amser y maent wedi ei roi i wneud hynny. Rydym wedi ystyried yr holl ymatebion yr ydym wedi eu derbyn yn ofalus, ac rydym wedi eu cadw mewn cof wrth ystyried a ddylid adolygu'r datganiad. Bydd y newidiadau yn awr yn cael eu cynnwys yn y Datganiad Polisi Cyhoeddus.

Mae'r CPS yn ymroddedig i sicrhau bod ein polisi erlyn yn galluogi ein herlynwyr i wneud y penderfyniadau cywir o ran cyhuddo, nid yn unig yn unol â'r gyfraith fel y mae, ond hefyd, pan fydd yn gyfiawn a chyfreithlon i wneud hynny, gan ystyried yr angen penodol i ystyried yr elfennau o risg i ddioddefwyr a thystion a'u diogelwch. Bydd hyn yn sicrhau bod gan y CPS bolisi y gall dioddefwyr, tystion a'r cyhoedd yn gyffredinol barhau i fod â hyder ynddo.

Meini Prawf Ymgynghori

Mae'r chwe maen prawf ymgynghori fel a ganlyn:

1. Ymgynghori yn eang trwy'r broses, gan ganiatáu lleiafswm o 12 wythnos ar gyfer ymgynghoriad ysgrifenedig o leiaf unwaith yn ystod y gwaith o ddatblygu'r polisi.
2. Bod yn glir beth yw eich cynigion, ar bwy y gallant effeithio, pa gwestiynau sy'n cael eu gofyn a'r amserlen ar gyfer ymatebion.
3. Sicrhau bod eich ymgynghoriad yn glir, yn gryno ac ar gael yn eang.
4. Rhoi adborth ar yr ymatebion a dderbyniwyd a sut y mae'r broses ymgynghori wedi dylanwadu ar y polisi.
5. Monitro effeithiolrwydd eich adran wrth ymgynghori, gan gynnwys defnyddio cydlynydd ymgynghori dynodedig.
6. Sicrhau bod eich ymgynghoriad yn dilyn gwell rheoleiddio ac arfer gorau, gan gynnwys cynnal Asesiad Effaith Rheoleiddiol os bydd hynny'n addas.

Rhaid i'r meini prawf hyn gael eu hatgynhyrchu ym mhob dogfen ymgynghori.

Atodiad A

Ymateb i'r ymgynghoriad

Ymatebwyr Unigol

Alan Thompson

Sefydliadau

NSPCC
Cymdeithas Ymarferwyr Cyfraith Mewnfudo
Prosiect Cyfreithiol Gwrth Fasnachu Mewn Pobl
Cyngor Dinas Rhydychen
Anti-Slavery International
ECPAT UK
Swyddfa Comisiynydd Plant Lloegr
Swyddfa Comisiynydd Plant Cymru
Migrant Help
REACH
SOVA
Canolfan Ryngwladol ar gyfer Astudio Pobl Ifanc y Camfanteisiwyd Arnynt yn Rhywiol ac a Fasnachwyd
Unseen (UK)
Yr Awdurdod Trwyddedu Gangfeistri
Coalition for the Removal of Pimping (CROP)
STOP UK
Rhwydwaith y Deyrnas Unedig o Brosiectau Gwaith Rhyw
Cymorth i Fenywod Cymru
Adran Iechyd (Tîm Trais, Allgáu Cymdeithasol ac Iechyd Milwrol)
Stop the Traffik
Fforwm Bechgyn a Dynion Ifanc
Safe & Sound Derby
National Working Group
Fforwm Trais Domestig Swydd Nottingham
Hope for Justice
Barnado's
Ysgol Hylendid a Meddygaeth Drofannol Llundain
Kalayaan
CARE
Prosiect TARA
CEOP

Asiantaethau Cyfiawnder Troseddol

Heddlu Caergrawnt
CPS Swydd Gaerhirfryn – Panel Cynnwys Cymunedau
Heddlu Gwent
CPS Gorllewin Swydd Efrog
Heddlu Caint
Heddlu Dyffryn Tafwys
Heddlu Manceinion Fawr
Asiantaeth Troseddau Cyfundrefnol Difrifol
CPS Essex
Y Swyddfa Gartref (Tîm Cydymffurfio Troseddau Cyfundrefnol UKBA)

Crown Prosecution Service
Strategy and Policy Directorate
Rose Court
2 Southwark Bridge
London SE1 9HS
e-bost: hqpolicy@cps.gsi.gov.uk